

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer**11/9/2023**

Presennol: D Clwyd Davies (Cadeirydd), Emyr Jones, Geraint Roberts, W D Williams,
Cynghorydd Alan Jones Evans; Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Gwyn Roberts, Eleri Jones, Tyly Roberts

1. **Croesawyd pawb** a derbyniwyd ymddiheuriadau.
2. **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. **Cofnodion** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 26/6/23.
5. **Materion y Clerc / Cofnodion**
 - i. Cyngor Gwynedd: derbyniwyd gwybodaeth am feysydd parcio ardal Llyn Tegid a chytunwyd i sefydlu partneriaeth i drafod materion min y llyn. Os bydd camerâu ANPR wrth y llyn yn Y Bala, mae'n bwysig fod rheolaeth hefyd yn cael ei ddarparu yn Llangywer. Mae'r gwersylla dros nos yn parhau yn boen. Y penwythnos braf diwethaf a dydd Sul triathlon wedi creu problemau mawr a chreu tagfa. Yn anffodus, nid Andrew Roberts oedd yn rheoli'r traffig ar ben y ffordd wrth bont Mwnwgl y Llyn eleni, ac roedd yn golled enfawr ar ei ôl. Awgrymwyd bod y Parc yn holi sut oedd Ardal y Llynnoedd yn rheoli parcio.
 - ii. Cyngor Gwynedd: cafwyd ymateb i gais am arwyddion "Ffordd Gul" ar y B4403; fe fydd swyddogion Gwynedd yn edrych mewn i'r mater. Maent yn camu ymlaen gyda'r cynllun Ffordd Glir.
 - iii. Cyngor Gwynedd: mae'r gwrych dan sylw wedi ei thocio, ac mae'r cerrig mân ar y ffordd yn dilyn y storm law wedi eu clirio.
 - iv. Cyngor Gwynedd : ymatebwyd i'r cais i drwsio'r wal wrth Bryntirion; roedd y swyddog a atebodd wedi drysu parthed y lleoliad, ond adroddodd yr aelodau fod y garreg fawr wedi ei thynnu.
 - v. Derbyniwyd Rheolau Sefydlog y Cyngor.
6. **Adroddiad Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Alan Jones Evans. Soniodd fod y safle ail-gylchu yn symud yn fuan i Gwm y Glyn. Nid oes penderfyniad wedi ei wneud am ddyfodol y strwythur ail-gylchu wrth y llyn. Bydd Gwrandawriad Cyhoeddus parthed y Glirffordd gan na thynnwyd yn ôl y gwrthwynebiad a wnaeth un unigolyn. Y tebygolrwydd yw y bydd y cynllun yn ei le erbyn tymor ymwelwyr 2024, yn darostyngedig i farn y Pwyllgor Cynllunio. Diolchwyd i'r Cynghorydd Alan Jones Evans am gynrychioli'r ardal yn y Gwrandawriad hwn.

7. **Materion Ariannol:** Ystyriwyd y sefyllfa ddiweddaraf a nodwyd derbyn ail hanner y Praesept. Cytunwyd i'r taliad am ail doriad y fynwent. Hefyd cytunwyd i dalu Cyngor Gwynedd am yr Archwiliad Mewnol (yn cynnwys TAW).
8. **Llwybr y fynwent:** Derbyniwyd addewid o grant £500 gan Barc Cenedlaethol Eryri i greu llwybr yn y fynwent. Rhaid i'r gwaith cael ei orffen a'i dalu amdano erbyn Mawrth 2024. Derbyniwyd rhoddion teuluol o £170 hefyd ar ddechrau'r haf. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu gyda Gwyn Roberts i lunio sbec ar gyfer y gwaith. Yn dilyn hyn bydd yn cysylltu gydag o leiaf 3 contractiwr lleol (a gyniwyd gan y Cyngorhwy) i geisio prisiau ar gyfer y gwaith. Nid yw'r Cyngor yn gallu fforddio llawer, ond ar y llaw arall rhaid gofalu am faterion diogelwch. Roedd gwybodaeth ar gael yn lleol am raean/gro. Gofynnwyd am brisiau mewn amlen i'r Clerc erbyn diwedd y mis a chyfarfod i'w trafod yn dilyn hynny.
9. **Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau cynllunio. Yn dilyn y cyfarfod daeth cais cynllunio i law: NP5/70/LB9R Caniatâd Adeilad Rhestredig i dynnu'r ports presennol, adeiladu estyniad a newidiadau cysylltiedig. Plas Gywair, Llangyfair. LL23 7BY. Cymeradwywyd y cais gan yr aelodau mewn ymgynghoriad e-bost.
10. **Gohebiaeth:** Ystyriwyd
- Coedwig Cenedlaethol i Gymru: Nodwyd llythyr yn cynnig grantiau ar gyfer creu coedwigoedd a choedlannau.
 - Cronfa Perchnogaeth Cymunedol: Nodwyd derbyn gwybodaeth fod y gronfa ar agor ar gyfer ceisiadau.
 - Mabon ap Gwynfor: Adroddodd y Cyngorhwydd Alan Jones Evans ar y drafodaeth ar y ddarpariaeth deintyddol a fu ar Teams 11/9/23. Mae'r sefyllfa'n ddigalon iawn. Mae Tŷ Glyder ym Mangor yn cynnig syrjeri ac hyfforddiant i ddeintyddion newydd. Diolchwyd i'r Cyngorhwydd am yr wybodaeth.
 - Mabon ap Gwynfor: Derbyniwyd gohebiaeth am ddiogelwch yr A494, ond mae cynlluniau gwella wedi cael eu hoedi am o leiaf dwy flynedd. Mae'r Cyngorhwydd Alan Jones Evans hefyd wedi bod yn gweithredu ar y mater ac wedi cael ymateb ansensitif gan y Gweinidog o ystyried bod nifer wedi colli eu bywydau. Diolchwyd i'r ddau am barhau i ymgyrchu.
 - Cyngor Gwynedd: Ystyriwyd gohebiaeth am Erthygl 4, sef defnydd o dai preswyl. Nodwyd nad yw hyn yn uniongyrchol berthnasol i ardal Parc Cenedlaethol Eryri ar hyn o bryd.
 - Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am feysydd parcio ardal Llyn Tegid a chytunwyd i ofyn am fod yn rhan o Bartneriaeth y Llyn pan y bydd hwnnw yn cael ei sefydlu gyda Pharc Cenedlaethol Eryri.
 - Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am gau Llwybrau 38 a 42 am 6 mis oherwydd cynaeafu coed.
 - Un Llais Cymru: Derbyniwyd rhestr o hyfforddiant sydd ar gael a manylion y Gynhadledd Flynyddol.
 - Llywodraeth Cymru: Derbyniwyd llythyr am y concriid diffygiol – RAAC – ond nid oedd adeilad yn cynnwys hyn yn y plwyf.

11. **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 13/11/23

Amser gorffen: 9.10pm